

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth, Cyfarfod 6 - 9 Tachwedd 2017

Adeiladau Llywodraeth Cymru, Spa Road East, Llandrindod.

Presennol

Lionel Walford – Cadeirydd

Peter Rees - Aelod Annibynnol

Steve Hughson - Aelod Annibynnol

Darren Williams - FUW

John Davies – NFU

Ivan Monckton – UNITE

Bryan Godsell – UNITE

Helen Snow – Geldards

Paul Whitfield – Llywodraeth Cymru

Gwesteion

Kevin Thomas – Lantra (Eitemau 2 a 3 yn unig)

Angharad Butler – Brookdale Consulting (Eitem 2 a 3 yn unig)

Eitem 1 - Croeso

Cafodd pawb eu croesawu i'r cyfarfod gan y Cadeirydd yn ogystal â'r gwesteion Kevin Thomas ac Angharad Butler.

Eitem 2 - Y Diweddaraf am LMI Research

Rhoddodd Angharad Butler, siaradwr gwadd o Brookdale Consulting, y newyddion diweddaraf i'r Panel am waith ymchwil Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a gynhaliwyd o fewn y Sector Amaethyddol a sut y gallai hyn helpu'r Panel i foderneiddio Gorchmynion Cyflogau yn y dyfodol. Gwelwyd mai megis dechrau mae'r gwaith ymchwil a bod y gwaith yn parhau. Byddai'n cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant yn eu cyfarfod nesaf.

Eitem 3 - Y diweddaraf o'r Gadair

Bu'r Panel yn trafod y nifer sy'n ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus o fewn y sector. Roedd Cyswllt Ffermio wedi nodi mai dim ond oddeutu 40% oedd y ffigur ond nid oedd yn glir a oedd y ffigurau hyn yn cynnwys contractwyr a hefyd faint o weithwyr gafodd "hyfforddiant mewn swydd". Cytunwyd bod angen rhagor o fanylion.

Gofynnodd y Panel a oedd yn bosibl i'r Arolwg o Fusnesau Ffermio gynnwys cwestiynau ychwanegol ynghylch llafur amaethyddol. Cytunodd y Cadeirydd i edrych i mewn i'r posibilrwydd.

Eitem 4 - Cymeradwyo Nodiadau Cyfarfod 5 ar 19 Medi 2017

Cytunodd y Panel i gofnodi cyfarfodydd yn y dyfodol yn electronig, a nodwyd hynny gan y Cadeirydd. Trafodwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 5 - Ystyried Ymatebion yr Ymgynghoriad ar Orchymyn 2018

Cafwyd pedwar ymateb i'r ymgynghoriad - pob un ohonynt wedi eu rhannu yn y cyfarfod yn ogystal â chrynodeb.

Yna cafwyd cadarnhad eto gan y Panel y dylai'r cynigion ar gyfer Gorchymyn Cyflogau 2018 aros fel a gyflwynwyd ar gyfer yr ymgynghoriad.

Eitem 6 - Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Panel unwaith eto fod angen cyfathrebu gwell gan gynnwys mwy o weithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol, y wefan a'r wasg gan ddefnyddio mwy o ddatganiadau i'r wasg. Cytunwyd hefyd y byddai crynodeb o gyfarfodydd Panel yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd.

Roedd lechyd a Diogelwch - UNITE yn dymuno codi ymwybyddiaeth o lechyd a Diogelwch o fewn amaethyddiaeth a lleihau nifer y marwolaethau o fewn y sector. Bu 30 ym Mhrydain yn ystod 2016/17.

Roedd yr NFU yn ymwybodol iawn o hyn ac yn rhannu eu pryderon ar y mater hwn. Maent ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda gweithgynhyrchwyr unedau tractor o ran lechyd a Diogelwch. Dywedwyd hefyd bod gwneud cwrs lechyd a Diogelwch ar-lein yn hanfodol cyn bod yn rhan o raglen Cyswllt Ffermio.

Nid oedd rhagor o Faterion i'w Trafod. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.